CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

# cyswllt FFERMIO

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
08456 000 813




**Technoleg 'clyfar'**
A all technoleg 'clyfar' wella iechyd a pherfformiad dofednod?

**Porfa yn Cynyddu Elw Bîff**
Sut gall porfa effeithio ar broffidioldeb busnes.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIFYN 11 - Medi/Hydref 2017 | www.llyw.cymru/cyswlltffermio



**ARWYN JONES**,
Fferm Plas, Llandegfan, Ynys Môn
Safle Arddangos Cyswllt Ffermio

## CYFLWYNIAD

Yn dilyn tymor ŵyna braf gydag ŵyn 2017, o ran perfformiad a phris, mae'r gwaith ar y fferm yn ddiweddar wedi bod yn canolbwyntio ar ŵyna'r flwyddyn nesaf. Mae'r holl stoc newydd, hyrddod a mamogiaid, wedi derbyn ein triniaeth cwarantîn, sy'n ymddangos fel pe bai'n gweithio'n dda i ni gydag atal yn brif nod yma yn y Plas o hyd. Cychwynnwyd sgorio cyflwr corff y mamogiaid yn gynnar iawn yr haf hwn ar ôl diddyfnu oherwydd y tymor tyfu glaswellt rhagorol yr ydym wedi ei gael, ac roedd rheoli'r mamogiaid tewaf yn gymaint o her â'r rhai teneuaf eleni. Byddwn yn ailadrodd y gwaith a wnaed gyda'r mamogiaid y tymor diwethaf gyda Cyswllt Ffermio o ran dadansoddi silwair, ffurfio'r dogn yng nghyswllt hynny ac yna cymryd samplau gwaed ar gyfer pob criw 3 wythnos cyn ŵyna i bennu statws eu proffil metabolig er mwyn rhoi'r cychwyn gorau posibl i'r ŵyn.

Mae'r prosiect 'Ffermio Manwl Gywir' wedi dangos amrywiadau sylweddol o ran statws y maetholion yn ein caeau, a byddwn yn ceisio cywiro hyn dros y gaeaf a'r gwanwyn gan ddefnyddio'r dechnoleg cyfradd amrywiol yr ydym wedi buddsoddi ynddi. Gyda'r gwahaniaeth rhwng elw a cholled mor dynn ag erioed, mae'n hanfodol i ni wneud y defnydd gorau posibl o unrhyw faetholion a brynir i mewn.

Bu'r farchnad gwartheg wedi eu pesgi yn gyson trwy'r haf a gobeithio bod tuedd ar i fyny ar y gorwel. Yn bendant mae'r gwaith a wnaethom i wella awyru rhai o'r siediau'r gwanwyn diwethaf yn dilyn ymweliad gan yr arbenigwr Jamie Robertson wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Ychydig iawn yr oedd hynny'n ei gostio o ran deunyddiau, gan mai dim ond agor yr ymyl gyda grinder i adael rhagor o awyr gynnes a llaith allan a thynnu rhagor o awyr iach i mewn a wnaed.




# Y Diweddaraf o Carwedd Fynydd, Medi 2017

Emyr Wyn Owen, Swyddog Technegol Cig Coch Gogledd Cymru

Mae gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf ar dras Rhwydwaith Arddangos Cyswllt Ffermio ar gael ar ein gwefan - businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/blogs-y-rhwydwaith-arddangos

Gyda'r amodau sych a welwyd ar ddechrau'r haf ac yna'r glaw a'r tymheredd mwyn, mae wedi bod yn haf digon heriol i ffermwyr ledled Cymru. Roedd hynny'n bendant yn wir ar Safle Ffocws Carwedd Fynydd, sy'n cymharu tyfu betys porthiant Robbos gyda chêl Maris Kestrel eleni ar gyfer gwartheg sugno'r fferm.

Yn dilyn dechrau anodd, mae'r betys porthiant bellach yn tyfu'n dda. Gallai hyny fod o ganlyniad o wasgaru tail buarth dros y cae cyn hau. Roedd yr amodau sych ym mis Mai-Mehefin yn bendant yn heriol gydag ardaloedd o'r cae yn waeth na'i gilydd ac ysgall yn ymledu rhwng chwistrelliadau.



*Betys Porthiant 14/07/17*



*Betys Porthiant 28/08/17*

Rydym yn rhagweld cyfanswm eithaf ceidwadol o 18,00kg DM/Ha ar gyfer y betys porthiant Robbos o ganlyniad i'r dechrau heriol a gafwyd. Ond os bydd ein rhagolygon yn cael eu gwireddu, dylem weld cyfanswm cynnyrch cnwd o 54,540kg DM, sy'n arbennig oddi ar gyn lleied o dir. Gyda dyraniad dyddiol o 14kg/DM/pen ar gyfer 20 o heffrod hyd at ddyflwydd oed a diet yn cynnwys 60% o fetys porthiant a 40% o silwair mewn byrnau, dylai 1.1ha ddarparu digon o borthiant ar gyfer gaeaf 150 diwrnod o hyd gyda 52 o fyrnau crwn i ategu. Bydd hynny wedyn yn darparu cyfle i Arthur fwydo 500 mamog feichiog am 70 diwrnod cyn dod â nhw i mewn ar y 1.93ha sy'n weddill. Bydd eu dyraniad dyddiol yn 1.4kg/DM/pen gyda 40% o'r dyraniad hwn yn dod o silwair byrnau crwn.



*Silwair byrnau crwn wedi'u gosod mewn mannau strategol yn y cêl er mwyn galluogi pori o frig y llethr at i lawr er mwyn lleihau dŵr ffo posibl.*

Heuwyd cyfanswm o 8.9ha o gnwd cêl Maris Kestrel ar y 19eg o Orffennaf trwy wasgaru'n eang a rholio'n drwm, a mynd drosto gyda pheiriant rotospike, ac yna rhoddwyd 6kg/ha o belenni atal gwlithod a fu o gymorth i ddiogelu'r cnwd yn ystod yr wythnosau cyntaf. Ond o ganlyniad i'r tywydd cynnes a gwlyb, rydym bellach yn gweld arwyddion o niwed gan bryfed ar rannau o'r cae. Bydd Arthur nawr yn holi am gyngor cyn rhoi mwy o gemegau ar y cae. Er mwyn ategu at y cêl, mae 140 o fyrnau silwair crwn wedi cael eu gosod mewn rhesi er mwyn galluogi'r gwartheg i gael mynediad at 1 bwrn crwn y dydd felly bydd dogn cytbwys 50:50 ar gael i'r gwartheg drwy'r amser yn ystod y gaeaf. Bydd hyn yn darparu porthiant gaeaf ar gyfer oddeutu 148 diwrnod gyda dyraniad o 14kg/DM/pen ar gyfer 75 o wartheg sugno sych a chnwd cêl a fydd yn cynhyrchu 8000kg/DM.

Mae ein cyrsiau e-ddysgu rhyngweithiol yn trafodamrywiaeth o bynciau a fydd yn eich cynorthwyo i ddatblygu sgilau a gwybodaeth newydd a phresennol ynghyd â gwella arferion gweithio o fewn eich busnes.

Ewch i wefan Cyswllt Ffermio i ddarganfod modiwl e-ddysgu'n ymwneud â pharatoi cyllideb fwyd ar gyfer y gaeaf i'ch cynorthwyo i reoli eich porthiant yn fwy effeithiol dros y gaeaf. *businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/porthiant-bwydydd*


# Manteision bod yn Fferm Ffocws Cyswllt Ffermio a bod yn Aelod o Grwpiau Trafod

Bu Catrin George, Tirlan, Brechfa, yn rhan o grŵp Maeth Mamogiaid am y 3 blynedd diwethaf. Mae'r 6 fferm sy'n rhan o'r grŵp wedi rheoli a chofnodi cyflwr corff y mamogiaid a'u pwysau gan anelu at wella cyfraddau tyfu'r ŵyn a'r cynnyrch i bob mamog. Yn Nhirlan arweiniodd hyn at gynnydd sylweddol yng nghyflwr corff y mamogiaid a phwysau'r ŵyn yn 8 wythnos ac wrth eu diddyfnu rhwng 2015 a 2017, fel y gwelir yn y tabl isod. Er bod gwanwyn a haf cynnar 2016 yn wael iawn a wnaeth gadw'r cyfraddau tyfu yn ôl, teimlai'r grŵp ar y cyfan bod cyflwr gwell y mamogiaid yn golygu nad oedd y tywydd wedi effeithio mor ddrwg arnynt â llawer o ddiadelloedd eraill.

## PERFFORMIAD ŴYN TIRLAN

| | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|
| Pwysau ar 8 wythnos | 16.4 | 14.3 | 19.8 |
| Pwysau ar ddiddyfnu | 23.2 | 21.5 | 27.2 |
| % dan y targed *(15kg ar 8 wythnos)* | 32 | 40.4 | 16.6 |
| % Magu | 143% | 140% | 145% |
| kg/mamog ar ddiddyfnu | 33.2 | 28.8 | 39.4 |

Maes arall y mae Catrin wedi rhoi pwyslais arno yw rheoli llyngyr, ffactor pwysig wrth wella cyfraddau tyfu ŵyn.




Trwy'r system FECPAK G2 mae Catrin wedi gallu monitro'r baich llyngyr yn ofalus a thargedu triniaethau yn fanwl, maent wedi gweld hefyd bod dosio yn dal yn effeithiol. Oherwydd eu bod yn cyfrif wyau ysgarthol yn gyson mae'r defaid yn cael dos wrth gael eu troi allan o'r sied ŵyna yn hytrach na 5-6 wythnos ar ôl diddyfnu oherwydd bod Catrin wedi gweld mai dyma pryd mae'r cyfrif wyau ar ei uchaf, gweler y graff. Mae hyn yn digwydd oherwydd bod straen ŵyna yn lleihau imiwnedd y defaid gan adael i'r llyngyr ffynnu. Trwy roi dos wrth droi allan mae llai o wyau yn cael eu gadael ar y caeau i'r ŵyn eu codi yn hwyrach yn y flwyddyn.

Fel fferm Ffocws roedd y prosiect ar fferm Tirlan yn edrych ar fapio'r baich llyngyr ar y prif gaeau pori gan ddefnyddio canlyniadau cyfrif wyau ysgarthol. Mae'r wybodaeth yn rhoi cyfle i Catrin wneud penderfyniadau fel pori caeau lle mae'r baich yn drwm â gwartheg neu famogiaid sych a dal i dyfu ŵyn ar gaeau lle mae'r baich yn llai. Pwysleisiodd Catrin fod *"y cysyniad yma yn newydd ac unigryw i bob fferm, ac mae pob blwyddyn yn wahanol ac felly bydd monitro gofalus ar wyau ysgarthol yn strategaeth reoli fydd yn parhau ar Tirlan"*.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â **Menna Williams** ar **menna.williams@menterabusnes.co.uk** neu **07399 600146**.



# A all technoleg **'clyfar'** wella iechyd a pherfformiad dofednod?

**Mae wedi cael ei brofi bod rheoli amodau amgylcheddol yn effeithiol yn lleihau cyfanswm costau cynhyrchu. Mewn llawer o fusnesau dofednod y nod yw darparu amgylchedd i gael y perfformiad gorau gan yr haid, gan gael cyfraddau tyfu da ac unffurf ac effeithlonrwydd o ran porthiant yn y cynnyrch cig gan sicrhau na fydd iechyd a lles yr adar yn dioddef.**

Defnyddir offer diwifr yn fwy cyffredin mewn bywyd o ddydd i ddydd a phan fydd yn cael ei ddefnyddio ar uned dofednod, gellir ei ddefnyddio i gynorthwyo i wneud penderfyniadau rheoli. Bydd synwyryddion wedi eu gosod mewn lleoliadau strategol trwy'r adeilad dofednod yn cynnig map fydd yn dynodi ardaloedd lle mae'r tymheredd yn uchel ac isel ar unrhyw amser yn ogystal â gwybodaeth amrywiol arall. Mae'r wybodaeth ar gael yn syth a gellir ei hanfon i ffôn symudol neu gyfrifiadur, gan sicrhau bod rheolwyr yn gallu ymateb i sefyllfaoedd yn gyflym a dynodi arwyddion posibl o salwch yn gynt.

Ym mis Tachwedd, bydd synwyryddion amgylcheddol yn cael eu gosod ar fferm brwyliaid 80,000 o adar yng Ngogledd Cymru. Bydd yr offer yn cael ei osod trwy un o'r unedau i 40,000 o adar a'i gymharu â'r uned 40,000 o adar arall ar y fferm. Nod y prosiect yw ymchwilio i unrhyw wahaniaethau rhwng y systemau a chofnodi penderfyniadau rheoli ar sail gwybodaeth a ddarperir o'r system synwyryddion diwifr a dynodi a yw'r dechnoleg yn helpu i wella iechyd, lles a pherfformiad yr adar.

Am ragor o wybodaeth ewch i -
**https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/rhwydwaith-arddangos**







# Bwydo'r fformiwla gywir i'ch mesurydd plât ar gyfer mesuriadau'r hydref.

Un o brif fanteision defnyddio mesurydd plât yw ei gywirdeb cymharol a rhwyddineb ei ddefnyddio. Mae'r darlleniad kgDM/ha cyfartalog a roddir ar y sgrin yn seiliedig ar y gwerthoedd Cynnwys Sych tybiedig ar gyfer glaswellt trwy gydol y tymor tyfu. Mae gan y rhan fwyaf o fesuryddion fformiwla diofyn ar gyfer mesuriadau yn ystod y prif gyfnod tyfu o fis Mawrth hyd at ddiwedd Awst. Ond os dymunwch barhau i fesur i'r hydref a dechrau'r gaeaf ar gyfer dibenion pori estynedig, mae'n bwysig i chi wybod bod angen addasu eich mesurydd.

Gall y % Cynnwys Sych amrywio trwy gydol y flwyddyn gan ddibynnu ar y tywydd, cyflwr y pridd a hefyd faint o goesynnau a deunydd marw sy'n bresennol yn y gwndwn, felly mae elfen dymhorol bwysig i'w hystyried wrth ddefnyddio eich mesurydd plât.

Gan fod y rhan fwyaf o blatiau mesur yn cael eu cynhyrchu yn Seland Newydd, mae'r llawlyfr cyfarwyddiadau sydd hefo nhw yn cynnwys fformiwla yn seiliedig ar galendr Seland Newydd. Gall y fformiwla isod ar gyfer y Deyrnas Unedig gael ei gofnodi yn y mesurydd trwy'r dull addasu gosodiadau trwy bwyso a dal y botwm Fformiwla i lawr fel y gwelir yn y llun.




| | | |
|---|---|---|
| Medi -Tachwedd | kgDM / ha = | uchder gwndwn x 187 + 900 |
| Rhag - Chwefror | kgDM / ha = | uchder gwndwn x 194 + 500 |

*(Ffynhonnell: Cyswllt Ffermio – Graddnodi mesuryddion plât i fesur glaswellt yn well)*

Am ragor o gyfarwyddyd am eich mesurydd plât eich hun, cyfeiriwch at eich llawlyfr cyfarwyddiadau neu darllenwch y Daflen Wybodaeth *'Graddnodi eich mesurydd plât'* sydd ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio.

https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/taflenni-gwybodaeth-chyhoeddiadau/graddnodi-mesuryddion-plat-i-fesur-glaswellt-yn-well

# Pesgi Bîff Organig ar Ystâd Fferm Rhug

Mae pesgi bîff yn ddiwydiant sy'n gweld amrywiaeth mawr o ran proffidioldeb ar lawer o ffermydd Cymru. Yn Arolwg Busnesau Fferm Cymru 2015/16 gwelir bod yr Elw Net ar gyfer ffermydd pesgi bîff yng Nghymru yn -51.80c/kg o bwysau byw a gynhyrchir, gyda'r traean uchaf yn dangos elw net o 28.12c/kg o bwysau byw a gynhyrchir. Mae'r ffactorau sy'n cyfrannu at yr amrywiad hwn yn aml tu hwnt i reolaeth y ffermwr h.y. amrywiadau yn y farchnad ac yng nghostau mewnbynnau. Ar y llaw arall, mae llawer o elfennau eraill fel iechyd a maeth yr anifeiliaid, ac yn bwysicaf oll, lleihau costau sefydlog, yn ffactorau allweddol y gellir eu rheoli sy'n cael dylanwad ar yr elw.

I Reolwr Fferm Rhug, Gareth Jones, mae sicrhau bod y fenter besgi bîff organig ar Fferm Rhug mewn sefyllfa gref wrth edrych tuag at ddyfodol tu hwnt i Brexit wedi ei ysgogi i gynnal gwerthusiad. Ar ôl ymweliad cychwynnol gan Fentor Cyswllt Ffermio, Meilir Jones, Fferm Gop, a'r ymgynghorydd bîff a defaid, Gavin Hill, SRUC, mae Gareth wedi tynnu sylw at feysydd allweddol i'w gwella:

- ➔ Gwella'r cynnydd pwysau dyddiol *(DLWG)*
- ➔ Lleihau'r nifer o ddyddiau cyn lladd
- ➔ Adolygu'r dogn presennol
- ➔ Buddsoddi mewn technoleg EID
- ➔ Adolygu'r cynllun busnes presennol

Ar hyn o bryd mae'r DLWG ar 0.6kg y pen ac mae'r dyddiau ar y fferm tua 400 diwrnod. Trwy ganolbwyntio ar gynyddu DLWG a thargedu 0.8-1kg y pen dylid gweld effaith gadarnhaol o ran lleihau'r dyddiau cyn lladd a chynnydd yn yr allbwn. Awgrymodd Gavin Hill, SRUC ychwanegu 0.5kg y pen y dydd o soia organig i'r dogn pesgi a allai fod yn ddewis cost effeithiol yn y tymor byr i gynyddu DLWG. Gall y dewisiadau tymor hir gynnwys tyfu codau llawn protein fel pys/ffa fel ffynhonnell protein gynaliadwy.

Bydd buddsoddi mewn EID yn caniatáu monitro effaith y dogn newydd ar berfformiad yr anifeiliaid yn ogystal â rhoi adborth ar ba wartheg sy'n perfformio orau ar gyfer eu system. Bydd system feddalwedd EID integredig hefyd yn gadael i bwysau gwartheg a'u dewis ar gyfer eu lladd ddigwydd heb fod angen cofnodion papur a thrwy hynny dorri lawr ar gostau gweinyddol ac osgoi unrhyw gamgymeriadau.

Bydd dull y fferm o ymdrin â llyngyr yr iau hefyd yn cael ei astudio gan fod hyn wedi cael ei ddynodi yn broblem barhaus ar fferm Rhug. Bydd angen trafod amrywio rheolau ar gyfer triniaeth ac amseru gyda milfeddyg y fferm i weld ble y gellir gwneud gwelliannau i wella iechyd a lles y gwartheg yn ogystal â'u perfformiad.

Mae'r Gwasanaeth Cynghori yn rhoi cyngor arbenigol, annibynnol, cyfrinachol ac unigol dan y categori Rheoli a Pherfformiad Da Byw:

Cyngor un i un - hyd at 80% o'r cyllid hyd at uchafswm o €1500 *(ewro)* am bob achlysur pan roddir cyngor.

Cyngor i grŵp - 100% o'r cyllid hyd at uchafswm o €1,500 *(ewro)* i bob aelod o'r grŵp.

**https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/gwasanaeth-cynghori**

Ffoniwch ni ar: **08456 000 813**

# Porfeydd o rywogaethau cymysg yn gallu bod o fudd i dda byw a phriddoedd



Mae porfeydd o rywogaethau gwahanol ar fferm laeth yn Sir Gaerfyrddin yn cynnig manteision o ran maeth i dda byw nad ydynt ar gael o laswellt.

Mae Pantglas ym Mlaenwaun, ger Hendy-gwyn ar Daf yn troi i fod yn organig ac mae'r ffermwyr, Gary Ehm a Sally Woods yn ymgorffori planhigion fel llyriad ac ysgallen y meirch wrth ail hadu i roi amrywiaeth i'r gwartheg.

Mae diffyg ffosfforws yn y pridd yno felly maent yn defnyddio'r planhigion yma fel dull o ymdrin â'r broblem ac i wella eu priddoedd.

"Ein cynllun nesaf yw defnyddio'r rhywogaethau yma yn y borfa i stoc ifanc oherwydd gallant roi tanin sydd â'r potensial i leihau'r baich o lyngyr," dywedodd Mr Ehm.

Gall perlysiau gynnig manteision ychwanegol o ran maeth pan fydd stoc yn eu bwyta, yn arbennig ar ffurf mwynau, ac mae hynny'n rheswm arall pam bod y rhain wedi eu cynnwys mewn porfeydd ffres.

Yn ystod diwrnod agored Cyswllt Ffermio ar fferm Pantglas, bu'r Ysgolhaig Nuffield, Robert Thornhill, sy'n rhedeg buches laeth gonfensiynol sy'n lloea yn y gwanwyn yn Swydd Derby, yn trafod ei arbrofion gyda hau gwndwn amrywiol ar ôl astudio dulliau gwahanol o drin porthiant a thechnegau pori ar gyfer ffermio llaeth a da byw cynaliadwy ar borfeydd.

"Gall porfeydd o rywogaethau gwahanol gynnig manteision ychwanegol o ran maeth mewn cymhariaeth â gwndwn glaswellt yn unig, yn arbennig o ran y cyflenwad mwynau," dywedodd Mr Thornhill.

*"Mae eu systemau gwreiddio yn fanteisiol iawn i strwythur y pridd a'i iechyd a dangoswyd eu bod yn cynhyrchu mwy o gynnwys sych na gwndwn glaswellt a meillion mewn tywydd sych."*

Mae Mr Thornhill yn awyddus i leihau ei ddibyniaeth ar wrtaith wedi ei gynhyrchu. "Rwyf yn gredwr mawr mewn rhoi buchod ar borfa – mae glaswellt yn gynnyrch gwydn a maethlon iawn, ond y gwendid mawr yw'r ddibyniaeth ar wrtaith toddadwy."

Yr her fwyaf wrth dyfu rhywogaethau gwahanol yw eu gallu i oroesi a'u tuedd i ddod i ben yn gynharach. Erbyn yr ail flwyddyn ar ôl hau, dywedodd Mr Thornhill, bod gostyngiad gweladwy yn yr ysgall y meirch yn un o'r darnau.

"Roeddwn yn rhagweld y byddai'r planhigion yn dod yn ôl flwyddyn ar ôl blwyddyn ond roedd gostyngiad amlwg yn yr ail flwyddyn, yn yr ysgall y meirch yn arbennig."

Ond gyda gwndwn cymysg, gyda chymaint o lystyfiant gwahanol mewn cyfnodau gwahanol, mae'r cyfle i gynhyrchu llaeth a chig o borfa yn cael ei ymestyn, nododd Mr Thornhill.

*"Mae'r hyn y mae'r gwartheg wedi ei fwyta cynt yn cael dylanwad mawr ar ei apêl, mae gwartheg yn hoffi rhywbeth newydd,"* dywedodd  Mr Thornhill.

Mae'r planhigion yma hefyd yn ail gyflenwi maetholion i'r pridd ac yn gwella ei strwythur. "Maent yn creu symbiosis trwy weithio gyda'i gilydd, er enghraifft bydd rhai yn llinynnog, eraill ag un prif wreiddyn. Mae'r cyfan yn cael dylanwad gwahanol dan ddaear," esboniodd Mr Thornhill.

Dylid dewis porthiant yn ofalus a dylai gynnwys mathau cynhyrchiol modern o blanhigion sy'n digwydd yn naturiol; mae gwerthwyr hadau amaethyddol yn gwerthu cymysgedd barod o wndwn cymysg.

Mae'n ofynnol i ffermwyr sy'n bwriadu ail hadu ofyn am Asesiad Effaith Amgylcheddol i gychwyn os ydynt yn bryderus bod y gwndwn presennol yn cynnwys llai na 25% o rywogaethau amaethyddol a wellwyd; mae hyn yn ofyn cyfreithiol.





# Porfa yn Cynyddu Elw Bîff

Mae faint o borfa sy'n cael ei fwyta gan anifail, a sut y mae'r pori yn cael ei reoli yn cael llawer mwy o effaith ar broffidioldeb busnes na'r rhan fwyaf o ffactorau eraill.

Porfa o ansawdd uchel yw'r porthiant rhataf posibl. Ond nid yw'r rhan fwyaf o anifeiliaid sy'n tyfu ar borfa yn cael eu bwydo i'w potensial sy'n arwain at gyfraddau tyfu is a chostau ychwanegol, fel cadw gwartheg dan do am ail aeaf, er enghraifft. Gorbori sy'n gyfrifol am hyn fel arfer, pan na fydd anifeiliaid yn cael eu symud yn ddigon aml i'r borfa gael adfer.

Mae gan reoli porfa ar ei ben ei hun y potensial i ddyblu'r borfa sy'n tyfu ac mae symud y stoc i ddarn newydd bob 1-3 diwrnod i hybu ail dyfiant yn hanfodol. Trwy osod ffensys da a seilwaith dŵr mae'n haws rhannu caeau mawr ac yn rhoi cyfle i'r system bori gael ei gweithredu gyda llai o waith ar gyfer pob anifail.

Eleni mae 'Precision Grazing' wedi rheoli dau brosiect pori bîff organig ar y cyd gyda Cyswllt Ffermio. Roedd y prosiectau yma yn defnyddio gwartheg a phorfa bresennol y ffermwr gan newid y seilwaith pori a'r rheolaeth yn unig.

Ar y ddau safle rhannwyd y caeau yn eu hanner gan ddefnyddio ffensys trydan rhannol barhaol gyda chyflenwad trydan neu ynni solar. Trwy hyn roedd modd creu padogau yn gyflym gan ddefnyddio ffensys *(polywire)* dros dro. Cyn eu troi allan roedd y gwartheg wedi cyfarwyddo â ffensys trydan trwy osod ffens polywire yn y buarth.

Defnyddiwyd cafn symudol i roi dŵr a oedd yn cysylltu â system ddyfrio Kiwitech, sy'n gollwng yn rhwydd, oedd yn rhedeg dan y ffensys trydan rhannol barhaol i gyflenwi'r ddwy ochr.

Cyfartaledd y gost sefydlu oedd £260-£320/ha a fydd yn cael ei dalu cyn pen 12 mis trwy'r cynnydd yn y cynhyrchiant pwysau byw ar bob hectar.

## Fferm Penrhiw, Ceredigion


Mae'r teulu Cowcher yn cadw buches fagu Stabiliser a chroes Simmental yn lloea yn Ebrill. Defnyddiwyd grŵp o 56 o wartheg blwyddi a'u pori fel un grŵp ar floc o 3 chae gyda chyfanswm o 14ha o borfa 5-6 mlwydd oed o laswellt a meillion. Yn y gorffennol roedd y gwartheg yn cael eu stocio yn sefydlog gyda'r cyfraddau tyfu yn 0.62kg y dydd ar gyfartaledd, dan y system hon maent wedi cynyddu 1kg y dydd ar gyfartaledd er eu bod wedi eu stocio ar ddwbl y gyfradd!

Gorffwyswyd y bloc o fis Ionawr a dechreuodd grŵp o 20 o wartheg bori yn y cae gyda'r tyfiant mwyaf o 2300kgDM/ha ar 8 Mawrth, gan symud yn ddyddiol i badogau 0.4ha i osgoi potsio. Ymunodd y 36 oedd yn weddill â nhw ar 3 Ebrill, cynyddwyd maint y padogau i 0.9ha neu 1/6 o gae, roedd y gorchudd wrth droi'r gwartheg i'r padogau wedi cynyddu i 2750kgDMha.

Ym mis Ebrill roedd y grŵp yn cael eu symud bob 2 ddiwrnod ar gylchdro 36 diwrnod, cynhaliwyd hyd y cylchdro hyd fis Mehefin pan dynnwyd 20 o heffrod magu i gael tarw potel a thynnwyd 3.6ha ar gyfer silwair, symudwyd y gwartheg oedd yn weddill i gylchdro 30 diwrnod.


Ailgyflwynwyd yr heffrod fel grŵp dilynol, yn pori'r hyn oedd ar ôl, gan eu bod yn uwch na'r pwysau targed. Mae'r dull hwn yn gwneud yn iawn am y cynnydd yn y galw am borthiant i wartheg sy'n cael eu pesgi wrth iddynt fynd yn drymach ac yn cynyddu'r cyfraddau tyfu.

Aed a 9 o wartheg i'r lladd-dy ar 18 Awst gyda chyfartaledd o 287kg ar y bach yn 16 mis oed ac aed a 7 bustach i'w lladd ar 7 Medi. Mae'r gwerthiannau yma wedi lleihau'r galw am borthiant gan adael i gyfartaledd y gorchudd gynyddu i gynnig byffer a fydd, ynghyd â gwerthu gwartheg ychwanegol, yn helpu i ymestyn y cyfnod pori i fis Tachwedd.




## Orsedd Fawr

Mae gan Gwyn Parry a'i deulu fuches fagu organig sy'n lloea ym mis Mai. Cofnodwyd pwysau'r lloeau yn 2016 wrth eu diddyfnu ac yn ystod y cyfnod dan do i fonitro eu cynnydd mewn cymhariaeth â tharged o 620kg o bwysau byw erbyn cyrraedd 18 mis. Fel mae'r siart isod yn dangos, roedd eu perfformiad hyd ddiddyfnu yn rhagorol, rhoddwyd dwysfwyd iddynt ar ôl diddyfnu gyda silwair a llwyddwyd i gael dros 1kg o gynnydd pwysau byw'r dydd. Ataliwyd y dwysfwyd oherwydd cost porthiant organig ac aeth y cynnydd pwysau dyddiol dan y targed, er gwaethaf y silwair o ansawdd da. Yn ddelfrydol mae ar anifeiliaid o'r oedran hwn angen silwair 12ME.




Rhannwyd bloc 5.29ha o borfa wedi ei wella mewn 4 cae yn 17 padog a throwyd 13 bustach allan ar 24 Mawrth i ddechrau'r cylchdro mewn gorchudd oedd yn 2000kgDM/ha ar gyfartaledd. Roedd y troi allan yn hwyrach na'r hyn a ddymunid oherwydd bod y mamogiaid wedi bod yn pori'r bloc ym mis Rhagfyr. Wrth i'r tyfiant gynyddu ymunodd 12 o fustych ychwanegol â'r grŵp a symudwyd hwy bob 2 ddiwrnod ar gylchdro 33 diwrnod. Pwyswyd hwy yn fisol ac roedd y cynnydd mewn pwysau ar y dechrau yn isel wrth i'r gwartheg addasu i fod allan a'r newid yn eu diet. Cadwyd yr effaith yma cyn lleied â phosibl trwy borthi diet silwair cyn eu troi allan.

Yn ystod mis Mai cyrhaeddodd y cynnydd pwysau dyddiol ei uchafbwynt ar 1.16kg cyn gostwng i 1.06kg ym mis Mehefin, oherwydd bod gormodedd o fwyd yn hwyr ym mis Gorffennaf, trowyd 6 o wartheg ychwanegol i'r padog gan gynyddu'r gyfradd stocio i 5.6/ha (2.2/erw). Er bod hyn wedi gostwng y tyfiant ar gyfartaledd i 0.75kg bu'n help i gynnal ansawdd y porthiant ac fe wnaethant gyfrannu at y cynhyrchiant cyffredinol i bob hectar. Ar ôl eu symud, cynyddodd y twf i 0.95kg i fis Awst.

Ar gyfartaledd mae'r gwartheg wedi ennill 127kgLW y pen i gyfartaledd o 516kg yng nghanol Awst *(15 mis oed)*. Tynnwyd y 5 anifail ysgafnaf i gael eu porthi ar wahân i leihau'r galw ar y porthiant a sicrhau twf parhaus ar 1kg y dydd. Amcangyfrifir, erbyn 18 mis oed, y bydd dwy ran o dair o'r grŵp wedi eu gwerthu. Y maes ffocws i gael gwelliant yn y system hon yw gwneud silwair 12ME ar gyfer y cyfnod dan do ar ôl diddyfnu i sicrhau lleiafswm o gynnydd pwysau dyddiol o 0.9kg.

**CRYNODEB -** Mae'r ddau brosiect wedi dangos y cynnydd ym mhwysau dyddiol y gwartheg a'r cynhyrchiant i bob ha. Er mwyn gorffen y gwartheg yn 16 neu 18 mis, mae angen cynnydd pwysau dyddiol o 1.16kg a 1.06kg yn eu tro.

| | Fferm Penrhiw | Orsedd Fawr |
|---|---|---|
| Arwynebedd y System (ha) | 13.9 | 5.29 |
| Nifer o Badogau | 10/15/20/30 | 9/17 |
| Cyfradd Stocio pen/ha (pen/erw) | 4 (1.62) | 4.5 (1.84) |
| Cyfartaledd Pwysau wrth eu Troi Allan (kg) | 374 | 389 |
| Glaswellt a Dyfwyd *(Y flwyddyn hyd yn hyn)* kgDM/ha | 8500 | 7500 |
| Glaswellt a Ddefnyddiwyd *(Y flwyddyn hyd yn hyn)* kgDM/ha | 6700 | 6000 |
| Cyfartaledd Cynnydd Pwysau Dyddiol kg | 1 | 0.94 |
| Cynhyrchiant *(Y flwyddyn hyd yn hyn)* kgLW/ha | 744 | 600 |
| Cynhyrchiant a Dargedir (kgLW/ha) | 850 | 750 |



## Cynllunio Rheoli Maetholion ar gyfer garddwriaeth

Mae Caerhys yn fferm organig gymysg yn tyfu llysiau a saladau ar gyfer cynllun blychau gyda thail wedi ei gompostio gan y fuches fagu yn cael ei ddychwelyd i'r ardaloedd tyfu. Fel rhan o brosiect Safle Ffocws sy'n edrych ar wella effeithlonrwydd compostio, gwnaed profion pridd yn yr ardaloedd tyfu, gan gynnwys dau dwnnel plastig. Dangosodd y canlyniadau:

- ✓ Ffosfforws (P) i gyd yn ddigonol
- ✓ Lefelau magnesiwm yn ddigonol
- ✓ Potasiwm (K) 41% o'r samplau yn isel
- ✓ pH yn dangos bod 88% o'r samplau angen calch

Amlygwyd chwalu calch ar unrhyw ardaloedd â pH dan 6 fel y brif flaenoriaeth, nid yn unig i leihau asidrwydd ond hefyd i hybu'r defnydd o faetholion eraill a dwyn meicrofaetholion i fod ar ffurf sydd ar gael i dyfiant yn well.

**Roedd yr argymhellion eraill yn cynnwys:**

- ✓ Angen K a fyddai angen amrywio'r rheolau gan y corff ardystio organig
- ✓ Dylai tail buarth gael ei ddychwelyd i'r caeau gyda'r mynegai P a K isaf
- ✓ Lleihau neu ddiddymu'r tail pan fydd y mynegai P yn 3 neu uwch
- ✓ Dim angen mwy o fewnbwn ar gyfer saladau a thomatos yn y twnneli-poly

Dangosir yr argymhellion penodol ar gyfer ardal i dyfu brassica yn y tabl.

Llysiau Cae Brassica *(argymhellion ar gyfer Swêj)* – 25 t/ha (10 t/erw) Tail Buarth wrth sefydlu (6737 yn is)

| Maetholyn Pridd | Mynegai Pridd | Gofyn y Cnwd Kg/ha *(Unedau/erw)* | Cyfraniad y Tail | Y Gweddill i'w Gyflenwi |
|---|---|---|---|---|
| Nitrogen | 2 | 60 (48) | 23 (18) | 37 (30) |
| Ffosffad | 3 | 0 | 80 (64) | 0 |
| Potash | 0 | 215 (172) | 180 (144) | 35 (28) |

Argymhellir ymgeisio am amrywio rheolau gan eich corff ardystio i brynu potash ar ffurf a gymeradwyir e.e. sylvinite (~16% $K^2O$, 29% $Na^2O$). Os caiff ei gymeradwyo, byddai 400kg/ha yn cyflenwi 64 kg/ha. Gellid ystyried defnyddio Boron *(os caiff ei gymeradwyo gan eich corff ardystio)* hefyd ar y cae hwn. Trwy chwalu tail yn strategol ar sail gwybodaeth dadansoddi pridd gellir sicrhau bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o'r maetholion sydd ar gael yn y system hunangynhwysol hon, gwella'r cynhyrchiant, arbed costau a hefyd diogelu'r amgylchedd.

Argymhellir y dylid cynnal dadansoddiad pridd arferol ar 25% o'r ardal dyfu yn flynyddol neu unwaith bob 4 blynedd.

**Mae Cynllunio Rheoli Maetholion ar gael dan y categori Cynghori i'r holl fusnesau garddwriaeth a gofrestrwyd gyda Cyswllt Ffermio.**

# Taclo Llyngyr yr Iau ar y ddaear

**Mae gan Lyngyr yr Iau gylched bywyd cymhleth ac mae'n dibynnu ar falwen y llaid, *Galba truncatula*, i gynnal a lluosogi'r parasit. Er bod y malwod yma i'w gweld mewn cynefinoedd gwlyb fel pyllau, glannau nentydd a ffosydd, ni fydd y malwod ym mhob cynefin addas a dim ond lleiafrif o'r malwod fydd wedi eu heintio â Llyngyr yr Iau.**

Mae Cyswllt Ffermio yn gweithio gydag IBERS, Aberystwyth i helpu i wella canfod cynefin ac i ddatblygu cynlluniau pori sy'n osgoi cynefin risg uchel ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn.

Mae swyddogion technegol yn ymweld â phum safle ar draws Cymru ac yn chwilio'r ardaloedd risg uchel ar y fferm am bresenoldeb malwod y llaid. Ar ôl dod o hyd iddynt, mae rhai o'r malwod yn cael eu casglu a'u hanfon at staff ymchwil IBERS i ddynodi a ydynt wedi eu heintio â'r parasit Llyngyr yr Iau.

Y nod yn y tymor byr yw helpu i ddynodi lefel yr heintiad ar y ffermydd unigol yma ac i weithio gyda milfeddygon y ffermydd i dargedu triniaethau yn well. Mae samplau o ysgarthion yn cael eu casglu hefyd oddi ar unrhyw ddefaid neu wartheg sy'n pori'r ardal a'u dadansoddi am bresenoldeb Llyngyr yr Iau a'r Rwmen.

Mae'r dewisiadau tymor hir ar gyfer rheoli Llyngyr yr Iau yn cynnwys defnyddio profi DNA amgylcheddol (eDNA). Mae'r dechnoleg yma yn casglu ychydig iawn o DNA yr organeb sy'n chwalu i'r amgylchedd.

Bydd gwerthusiad o ba mor ddefnyddiol yw'r wybodaeth i'r ffermwr, yn ychwanegol at archwilio cynefinoedd yn ffisegol am bresenoldeb malwod y llaid a chyfrif wyau ysgarthol yn gam datblygu pwysig i sicrhau y gall yr offeryn eDNA fod yn haws ei ddefnyddio i ffermwyr trwy Gymru.





## Gwerthuso buddsoddi mewn technoleg GPS ar gyfer gweithrediadau glaswelltir

Bu gwneud penderfyniadau cadarn ar fanteision buddsoddi mewn technoleg tractor System Leoli Fyd-eang (GPS) yn bwnc poblogaidd iawn ar stondin Agri Lab y Sioe Frenhinol. Roedd Ian Beecher-Jones, Hyfforddwr Ffermio Manwl Gywir a Mentor ar gael i roi cyngor diduedd am berthnasedd buddsoddi i ffermydd o bob math a maint.

Er mwyn asesu mantais y gost o fuddsoddi, argymhellodd Ian y dylid mynd allan gyda thâp mesur a mesur pa mor gyson yw'r lled rhwng llwybrau gwaith ar hyn o bryd. Cywiraf yn y byd yw'r arferion gwaith ar hyn o bryd, lleiaf yn y byd o fanteision o ran cost a fydd. Dylid rhoi rhagor o ystyriaeth o ran faint o weithrediadau sy'n cael eu cynnal mewn cae ac a yw'r un tractor yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr holl weithrediadau.

**O ran system lefel mynediad, tanlinellodd Ian y canlynol:**

➔ System bar golau yng nghab y tractor - costio tua £1500 ond mae angen i'r gyrrwr ddal i lywio'r tractor ac mae'n un offeryn yn ychwanegol i'w wylio yn ogystal â gweithredu'r peiriant. Mae cywirdeb yn heintus, felly mae'r rhan fwyaf o ffermwyr yn difaru peidio â mynd yn syth at y dewis llywio awtomatig.


➔ Mae system llywio awtomatig yn costio £5-10,000 ond mae'r rhan fwyaf o dractorau newydd yn "barod i'w llywio" o'r ffatri. Mae nifer o systemau ar gael, ond un boblogaidd yw'r un lle gellir gosod peiriant ar fodelau hŷn o gwmpas y golofn lywio. Mae'r math yma o system yn tynnu'r pwysau oddi ar y gyrrwr a gall y gweithrediadau gael eu gwneud pan na fydd llawer o olau ac yn y tywyllwch.

Bydd y ddwy system yma yn cynnig cywirdeb o lai na metr o rhwng 10cm ag 1 metr gan ddibynnu ar y signal cywiro y mae'r system yn ei ddefnyddio; gellir cael cywirdeb o fewn dau gentimedr trwy ddefnyddio systemau Real Time Kinematics (RTK) sydd, yn y rhan fwyaf o enghreifftiau, angen mastiau cywiro lleol yn hytrach na system ar sail lloeren, ond dim ond mentrau ffermio mwy all gyfiawnhau hyn mewn gwirionedd neu pan fydd nifer o ffermydd llai yn cydweithredu i dalu'r gost


**Mewn ffermydd glaswelltir, gall gosod GPS ganiatáu i ffermwyr weithio yn fwy proffesiynol ac effeithlon:**

✓ Lleihau'r amser a gymerir i gludo gwrtaith, chwistrellu a thrin
✓ Lleihau gor-chwalu a gwastraffu gwrtaith a chwistrell
✓ Rhoi cofnodion y gellir eu holrhain ar gyfer gweithrediadau mewn caeau
✓ Ei gwneud yn haws i chwalu gwrtaith yn syth ar ôl gwneud silwair neu gynhaeaf gwair
✓ Cael y gyfradd wrteithio orau ar draws y cae trwy gyfuno gyda chwalu manwl gywir a samplo pridd
✓ Hwyluso Ffermio Gan Reoli Traffig i leihau'r cywasgu ar y pridd a gwella cynnyrch glaswellt

# Porthi wedi ei ffocysu yn arwain at ostwng costau porthiant i ddiadell ddefaid ucheldir







**Lleihau costau porthiant ychwanegol i famogiaid sy'n cario gefeilliaid a thripledi yn y cyfnod cyn ŵyna oedd pwyslais prosiect ar safle Ffocws Cyswllt Ffermio ar Fferm Hendy.**

Fferm bîff a defaid 400 erw ar yr ucheldir yng nghanolbarth Cymru yw Hendy sy'n cael ei ffermio gan Keith Williams, un o gyn aelodau'r Academi Amaeth. Bu'r prosiect yn ymchwilio a fyddai porthi Dogn Cymysg Cyflawn (TMR) o silwair clamp da a chynnyrch protein soia wedi ei ddiogelu (Sopralin) yn bodloni anghenion mamogiaid sy'n cario gefeilliaid/tripledi. Ysgogwyd y prosiect gan yr ymgynghorydd defaid, John Vipond yr oedd Keith wedi ei glywed yn siarad mewn cyfarfod Cyswllt Ffermio ar faethiad mamogiaid.

Yn y gorffennol roedd dwysfwyd wedi ei borthi i'r ddiadell o 885 mamog ynghyd â'r stoc cyfnewid cyfeb gyda'r defnydd nodweddiadol yn 23 tunnell y flwyddyn. Gan gydnabod bod mamogiaid yn hwyr yn eu beichiogrwydd angen lefelau uwch o brotein ac egni yn eu diet, awgrymwyd porthi soia sy'n uchel mewn protein sy'n osgoi'r rwmen yn ogystal ag egni fel dull hyfyw o leihau costau porthi gan fodloni anghenion y famog. Er y bydd y newid hwn yn costio mwy am bob tunnell, gall y cyfanswm llai fydd yn ofynnol arwain at arbedion sylweddol. Gall y system gael ei mireinio eto trwy borthi protein wedi ei 'ddiogelu' fel Sopralin sydd ei hun yn deillio o soia.

Yn y gorffennol roedd Keith wedi treialu porthi soia mewn cafnau ond roedd hyn yn drwm o ran llafur a'r mamogiaid yn mynd ar draws ei gilydd yn y corlannau. Gwnaed y penderfyniad felly i fuddsoddi mewn wagen borthi ail law a chyflwyno system borthi Dogn Cymysg Cyflawn (TMR). Trwy weithio gyda Cyswllt Ffermio, awgrymwyd profi metabolig ac iechyd i sicrhau bod perfformiad yr anifeiliaid yn cael ei gynnal neu ei wella yn ogystal â lleihau costau posibl.

Sylweddolodd Keith hefyd, na ellid gweld manteision porthi soia neu Sopralin yn llawn oni bai bod silwair o ansawdd da yn cael ei ddefnyddio (dros 10.5 ME). Yn 2016 roedd Keith wedi torri'r cnwd silwair yng nghynt ar 5.5 wythnos i gynyddu ei dreuliadwyedd a'i gynnwys ME cyn y newid yn y system borthi. Gwnaed profion ar y porthiant i greu'r dogn terfynol ac i sicrhau bod y silwair o'r ansawdd cywir.

Dangosodd canlyniadau'r prosiect bod y diet o silwair o ansawdd uchel, Sopralin a mwynau yn bodloni anghenion yr holl famogiaid o ran maeth. Mewn cymhariaeth â systemau porthi blaenorol, roedd y mamogiaid yn Hendy hefyd yn fwy bodlon ac yn gorffwys am gyfnodau hwy trwy ddefnyddio'r system TMR ac yn ymddangos fel pe baent yn gwthio llai pan oedd y porthiant yn cael ei roi bob bore. Gan fod y mamogiaid yn cael diet cyson nid oedd newidiadau mawr yn y pH yn y perfedd sy'n gallu digwydd wrth borthi dwysfwyd ac roedd yn ymddangos bod osgoi lefel uchel o starts yn y diet yn helpu i leihau anhwylderau metabolig a bwrw llawes goch yn y ddiadell.

Arweiniodd y newid i ddefnyddio Sopralin at arbediad o tua £4,200 i gyd. Mae hyn yn cynnwys y £130 a wariwyd ar fwynau ychwanegol a thrwy ddefnyddio wagen gymysgu dim ond 10 munud y dydd y mae'r porthi yn ei gymryd.

Dangosodd y prosiect hefyd werth proffilio metabolig i wirio statws iechyd y ddiadell, yn arbennig fel offeryn i ddynodi unrhyw broblemau nad ydynt yn weladwy. Cafwyd hyd i broblemau o ran llyngyr yr iau a'r rwmen o ganlyniad i'r profi.

### Awydd rhoi cynnig ar hyn ar eich fferm eich hun?

Mae Keith hefyd yn Fentor Cyswllt Ffermio. I ddewis Keith fel eich mentor a chael hyd at 22.5 awr o'i amser cysylltwch â ni heddiw neu ewch i'r wefan.

**businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy**

# Mesur costau porthi mamogiaid yn y gaeaf yn arwain at arbedion a gwell cyflwr i'r mamogiaid

Mae fferm arddangos Cyswllt Ffermio, Rhiwgriafol yn fferm ucheldir 530 erw ger Machynlleth a'r gaeaf diwethaf bu'n cymharu dewisiadau porthi gwahanol ar gyfer y ddiadell o 900 o famogiaid Mynydd Cymreig wedi eu gwella. Ar ôl ymuno â Glastir yn ddiweddar, roedd cyfyngiadau pori yn y gaeaf ar yr ucheldir yn golygu bod bwlch i'w gau o ran porthiant. Gyda hyn dan sylw, roedd Rhidian am gymharu costau ac ochr ymarferol tair system borthi wahanol: dwysfwyd ar borfa wedi ei gadw, gaeafu defaid, ac am y tro cyntaf, swêj.

## Y cnwd swêj

Driliwyd naw erw o swêj ar 1kg yr erw ym mis Mehefin ar ôl chwistrellu'r gwndwn glaswellt. Dechreuodd y mamogiaid bori'r cnwd ar 1 Ionawr, arhosodd yr efeilliaid ar y cnwd hyd at 4 Mawrth, dair wythnos cyn ŵyna, pan roddwyd 400g o ddwysfwyd 18% iddynt a chael mynd i laswellt gwanwyn o ansawdd da. Arhosodd y mamogiaid ŵyn sengl ar y cnwd hyd at ychydig ddyddiau cyn ŵyna a rhoddwyd 200g o ddwysfwyd iddynt am y 10 diwrnod olaf. Roedd cynnyrch cynnwys sych y cnwd swêj tua 10t DM/ha (4t yr erw).



## Gaeafu

Anfonwyd 425 o famogiaid i'w gaeafu ar laswellt yn unig gan eu cludo yn ôl i Rhiwgriafol i fod dan do dair wythnos cyn ŵyna.

## Porfa wedi ei neilltuo a dwysfwyd

Rhoddwyd 55 erw o borfa i drydydd grŵp o 205 o ŵyn blwydd ar Rhiwgriafol o 1 Ionawr a chawsant ddwysfwyd a silwair nes eu rhoi dan do yng nghanol Mawrth. Rhoddwyd deg o fyrnau o silwair 27g o ddwysfwyd i bob mamog *(ychydig dros 5 tunnell)* i gyd. Mewn cymhariaeth â'r mamogiaid ar swêj neu'n gaeafu, roedd yr ŵyn blwyddi mewn cyflwr gwaeth wrth ŵyna.

## Y canlyniadau

Dadansoddwyd y tair system borthi, ac ar £8 y famog, y cnwd swêj oedd y rhataf, mewn cymhariaeth ag £11 y famog ar gyfer mamogiaid yn gaeafu ac £17 y famog i'r rhai ar silwair a dwysfwyd, £7 o hynny o ddwysfwyd yn cael eu porthi i famogiaid. Roedd y costau hyn yn cynnwys gofynion llafur a lwfans ar gyfer gwerth rhent unrhyw dir a ddefnyddiwyd. Roedd y ffigwr ar gyfer gaeafu hefyd yn cynnwys cludiant i'r tir ac oddi yno a chost cadw golwg ar y stoc.

## Symud ymlaen

Gydag arbediad posibl o tua £8,000 os bydd yn cael ei weithredu ar y ddiadell gyfan, mae Rhidian wedi dyblu'r erwau i swêj a bydd yn parhau i fesur costau porthi yn y gaeaf ac yn monitro iechyd a pherfformiad y mamogiaid yn ofalus.

Bydd adroddiad llawn ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio yn fuan.

**businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy**

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
08456 000 813

- Dewisodd Rhaglen Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio eleni ddeuddeg unigolyn uchelgeisiol a'u llygaid ar y dyfodol i ddysgu am ffyrdd newydd a gwell o weithio yn y sectorau ffermio neu goedwigaeth.
- Ymwelodd Alwyn Phillips â dwy o wledydd Sgandinafia i ehangu ei wybodaeth, gallu technegol ac arbenigedd rheoli i gynnig cyfleoedd datblygu newydd iddo yn bersonol ac i'w fusnes.

# Dulliau Sgandinafaidd o ffrwythloni mamogiaid

## SWEDEN A DENMARC

**MAI 2017**

Nod yr astudiaeth hon oedd

1. Dynodi gwahaniaethau yn y dulliau a ddefnyddir i roi hwrdd potel (AI) yn Nenmarc a Sweden mewn cymhariaeth â'r Deyrnas Unedig
2. Dysgu am agweddau bridwyr tuag at ddefnyddio ymhadiad artiffisial mewn defaid
3. Amlygu newidiadau y gellid eu gweithredu i wella rhaglenni ffrwythloni ceg y groth yng Nghymru

Yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o famogiaid yn cael eu ffrwythloni yn laparoscopig (Lap AI) sy'n cael ei gyflawni gan filfeddyg cymwys. Lap AI sy'n cynnig y cyfraddau cyfebu gorau sy'n amrywio o 60% i 80%, neu o 90% os defnyddir semen ffres. Mae Lap AI yn driniaeth fewnwthiol ac mae risgiau i'w hystyried, yn arbennig gan fod y bridwyr yn dewis eu mamogiaid gorau un i gael y driniaeth.

Er mwyn gallu cyfiawnhau costau uchel Lap AI *(Ffi ymweliad milfeddyg £125, sbwng a PMSG £3.75 y famog, Lap AI £12-£15 y famog, trin y semen £20 y llwyth a chost y semen)* mae'n hanfodol cael cyfraddau cyfebu uwch sydd wedyn yn cael eu trosi yn nifer uchel o ŵyn yn cael eu geni.






Dewis arall yw ffrwythloniad ceg y groth (Cervical AI). Nid oes angen milfeddyg i wneud hyn a defnyddir semen ffres o hwrdd ar y fferm. Mae iddo'r un costau o ran rhaglen i gael y mamogiaid i ofyn hwrdd yr un pryd â Lap AI heb gostau'r semen wedi rhewi. Mae cyfraddau cyfebu ffrwythloni ceg y groth yn defnyddio semen ffres yn amrywio o 50% i 70%. Arweiniodd treialon semen wedi rhewi a gynhaliwyd yn y Deyrnas Unedig at gyfraddau cyfebu siomedig iawn yn amrywio o 5% i 30%.

Yn holl wledydd Sgandinafia mae Lap AI yn anghyfreithlon a dim ond Sweden sy'n caniatáu defnyddio sbwng a PMSG. Nid yw Norwy hyd yn oed yn caniatáu i ffermwyr ddefnyddio hyrddod wedi torri arnynt i ganfod y defaid sy'n gofyn hwrdd yn naturiol. Oherwydd y cyfyngiadau cyfreithiol hyn, mae gwledydd Sgandinafia wedi datblygu dull o ffrwythloni ceg y groth mewn mamogiaid trwy ddefnyddio semen wedi ei rewi o angenrheidrwydd. Ar hyn o bryd, mae'r arweinwyr o ran ymhadiad ceg y groth gan ddefnyddio semen wedi rhewi yn Norwy. Mae'n cael ei gyflawni gan y ffermwyr eu hunain ac fe'i gelwir yn "ergyd i'r tywyllwch". Erbyn hyn maent yn llwyddo i gael cyfraddau cyfebu o rhwng 60 i 70% yn gyson ar filoedd o famogiaid. Mae hyn yn cymharu â chanlyniadau Lap AI heb y risgiau, y costau ac ymyrraeth PMSG. Bu ffermwyr defaid yn Sweden a Denmarc yn defnyddio dull Norwy yn eithaf llwyddiannus ers nifer o flynyddoedd.


Ymwelodd Alwyn â 6 fferm yn ystod ei ymweliad chwe diwrnod â Sweden a Denmarc a theithiodd bron i 200 milltir. *'Mae fy ymweliad â Sweden a Denmarc wedi bod yn bleser, yn llawn gwybodaeth ac yn ddwys. Roedd y bobl a gyfarfyddais yn barod iawn i rannu eu harbenigedd, eu llwyddiannau, ond yr un mor bwysig, yr hyn yr oeddynt wedi ei ddysgu o'u methiannau'*

Cred yn gryf bod raid i'r holl gynhyrchwyr cig oen a bridwyr edrych ar bopeth ac unrhyw beth fydd yn lleihau costau cynhyrchu a chynyddu eu gallu i gystadlu mewn marchnad fyd-eang.

Gellir gweld adroddiad llawn Alwyn ar ein gwefan - *businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/rhaglen-cyfnewidfa-rheolaeth-cyswllt-ffermio*

Bydd y ffenestr ymgeisio i'r Gyfnewidfa Reolaeth yn agor ym Mehefin 2018.

# Sut i ddewis y fframwaith cyfreithiol cywir ar gyfer Menter ar y Cyd





Er mwyn gofyn am gopi o'r **Llawlyfr Mentro** newydd sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am y fframweithiau cyfreithiol a restrir uchod neu i gael rhagor o wybodaeth am Mentro cysylltwch â **Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio - 08456 000 813**

Yn fras, mae'r dewisiadau cyfreithiol ar gyfer mentrau ar y cyd yn bodoli ar hyd sbectrwm o reolaeth: o ddarparwyr *(tirfeddianwyr)* yn cadw'r rheolaeth lawn ar un pen, i geiswyr *(newydd-ddyfodiaid)* yn cymryd mwy a mwy o reolaeth tuag at y pen arall, fel y dangosir. Un ffordd effeithiol o ganfod y math o gytundeb a all weithio i chi yw dod o hyd i ble yr ydych yn meddwl y mae amodau eich perthynas waith yn eistedd ar y sbectrwm hwn.

Os gallwch chi fynd cyn belled â hyn cyn rhoi manylion i'ch cyfreithiwr, yna rydych yn fwy tebygol o gael fframwaith cyfreithiol sy'n gwneud yr hyn a ddymunwch. Rydych hefyd yn debygol o arbed arian: cliriaf yn y byd yw'r brîff, mwyaf cost effeithiol fydd y broses gyfreithiol.

Mae mathau amrywiol o gytundebau cyfreithiol ar gael, gan roi gwahanol raddau o reolaeth i'r darparwr a'r ceisiwr. Ar un eithaf, byddai'r tir yn cael ei ffermio mewn llaw gan roi rheolaeth lawn i'r perchennog dros y penderfyniadau rheoli a busnes, gan gyflawni'r rhan fwyaf o weithrediadau ffermio yn uniongyrchol a dwyn y risg ariannol yn llawn. Ar y pen arall, gall y perchennog werthu'r tir, gan ei drosglwyddo i rywun arall. Rhwng y ddau yma y mae nifer o ddewisiadau a all fod yn addas i wahanol amgylchiadau.

## Y sbectrwm o ddewisiadau cyfreithiol



# Amserlen Digwyddiadau

| DYDDIAD | DIGWYDDIAD | LLEOLIAD | CYSWLLT |
|---|---|---|---|
| **23/10/17** | Cynllunio eich Datblygiad Personol | Abergavenny | 08456 000 813<br>cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk |
| **24/10/17** | Rheoli coetir ac ychwanegu gwerth at goed ar y fferm | Llandwrog | **Geraint Jones** 07398 178 698<br>geraint.jones@menterabusnes.co.uk |
| **24/10/17** | Cynllunio eich Datblygiad Personol | Pembrokshire | 08456 000 813<br>cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk |
| **24/10/17**<br>**19:30-21:30** | Cynnal iechyd ac effeithlonrwydd yn y fuches sugno | Caersws | **Menna Williams** 07399 600 146<br>menna.williams@menterabusnes.co.uk |
| **25/10/17**<br>**26/10/17** | Gwneud bywoliaeth ar 10 erw | Llanarthne<br>Machynlleth | **Sian Tandy** 01970 631 404<br>sian.tandy@menterabusnes.co.uk |
| **26/10/17** | Cymhorthfa Gynllunio | Mynwy | **Gwenan Jones** 01970 636 296<br>gwenan.jones@menterabusnes.co.uk |
| **26/10/17**<br>**13:00-16:00** | Sefydlu a rheoli perllannau afal ar gyfer cynhyrchu seidr | Abergavenny | **Geraint Jones** 07398 178 698<br>geraint.jones@menterabusnes.co.uk |
| **06/11/17** | Gwneud bywoliaeth ar 10 erw | Llanrwst | **Sian Tandy** 01970 631 404<br>sian.tandy@menterabusnes.co.uk |
| **08/11/17**<br>**21/11/17**<br>**06/12/17**<br>**17/01/18** | Cymhorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio | Gŵyr<br>Aberaeron<br>Trallwng<br>Y Fenni | **Gwenan Jones** 01970 636 296<br>gwenan.jones@menterabusnes.co.uk |
| **07/11/17**<br>**19:00** | Treulio anaerobig - Opsiwn ar gyfer eich tail ieir | Newtown | **Jodie Roberts** 07898 996 841<br>jodie.roberts@menterabusnes.co.uk |
| **05/12/17**<br>**19:00** | Brechu i gynyddu proffidioldeb eich uned ddofednod | Trallwng | |
| **07/11/17** | O'r Llo i'r Lloia<br>*(ar y cŷd gyda AHDB)* | Pwllheli | **Rhys Davies** 07985 379 880<br>rhys.davies@menterabusnes.co.uk |
| **09/11/17**<br>**19:30-21:00**<br>**10/11/17**<br>**19:30-21:00**<br>**13/11/17**<br>**19:30-21:00**<br>**13/11/17**<br>**19:30-21:00** | Meincnodi Gwartheg Sugno - Steven Sandison | Trallwng<br>Tregaron<br>Powys<br>Pencoed | **Sian Tandy** 01970 631 404<br>sian.tandy@menterabusnes.co.uk |
| **20/11/17**<br>**23/11/17**<br>**24/11/17** | Arfer gorau mewn trin a storio planhigion a phlannu gwrychoedd | Glynllifon College<br>Monmouth<br>Carmarthenshire | 08456 000 813<br>farmingconnect@menterabusnes.co.uk |

***Lleoliad llawn i'w gadarnhau wrth archebu lle.***